Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 30.04.26 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymateb parthed Siarad gyda fi Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2026-2030** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn cefnogi cyfeiriad cynllun arfaethedig *Siarad gyda fi – Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2026 i 2030,* at ei gilydd. Mae ymestyn y rhaglen i gynnwys plant rhwng 5 ac 11 oed yn ddatblygiad cadarnhaol ac angenrheidiol, sy'n cydnabod bod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hanfodol i fynediad dysgwyr at y cwricwlwm, lles a deilliannau tymor hir.

Mae croeso arbennig i'r pwyslais ar ddull ataliol, system gyfan. Mae gosod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gyfrifoldeb ar y cyd ar draws addysg, iechyd, gofal plant a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu cymhlethdod anghenion plant ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi ehangach yng Nghymru. Mae gan y ffocws ar gymorth cyffredinol a thargedig, ochr yn ochr â datblygu'r gweithlu, botensial cryf i wella cysondeb a thegwch darpariaeth.

Fodd bynnag, bydd llwyddiant y cynllun cyflawni yn dibynnu llai ar ei fwriad strategol a mwy ar eglurder, cydlynu a thrylwyredd ei weithredu. Yn benodol, mae angen:

- diffinio disgwyliadau clir ar gyfer ysgolion a lleoliadau, yn enwedig o fewn addysg statudol
- sicrhau galluogrwydd gweithlu cyson, o ansawdd uchel ar draws sectorau
- ymgorffori mecanweithiau gwerthuso ac atebolrwydd trylwyr
- gwarantu cydraddoldeb ac eglurder mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Heb y rhain, mae perygl na fydd cwmpas ehangach y rhaglen, yn enwedig i addysg statudol, efallai'n trosi'n welliannau cyson yn neilliannau dysgwyr.

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi egwyddorion y polisi. Gyda phwyslais cryfach ar ddisgyblaeth weithredu, gwerthuso a chydlynu system, mae gan y cynllun botensial cryf i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Cymru.

**Negeseuon allweddol ac ystyriaethau polisi:**

- Mae ymestyn i oedrannau 5–11 yn hanfodol i fynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth y tu hwnt i'r blynyddoedd cynnar, a gwella parhad mewn cymorth
- Mae eglurder gweithredu yn hanfodol: mae angen disgwyliadau eglur, arweiniad ymarferol ac enghreifftiau ar ysgolion a lleoliadau
- Galluogrwydd gweithlu yw'r un galluogwr pwysicaf a rhaid ei flaenoriaethu ar draws pob sector, gan gynnwys Addysg Gychwynnol Athrawon
- Nid yw gwerthuso a mesur effaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol a dylid cryfhau hyn fel amcan craidd
- Rhaid ymgorffori darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn systematig, gyda chydraddoldeb mewn offer, hyfforddiant ac ymyriadau
- Rhaid i aliniad â Chwricwlwm i Gymru, diwygio ADY a pholisi lles fod yn eglur a chael ei weithredu

Bydd capasiti system (gweithlu, adnoddau, cyfle i fanteisio ar arbenigedd) yn pennu p'un a oes modd cyflawni uchelgeisiau yn ymarferol.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r datganiad – mae'r enw Siarad gyda fi Cam 2 yn ddefnyddiol a pherthnasol i ymdrin ag ymestyn y gwaith hwn i blant rhwng 5 ac 11 oed.**

**Os na, allwch chi awgrymu dewis arall?**

**Cytuno**

**Sylwadau ychwanegol, dylech gynnwys awgrymiadau ynghylch newidiadau enw yma:**

Mae'r cynnig i gadw brand *"Siarad gyda fi"* yn darparu parhad defnyddiol ac yn adeiladu ar raglen sefydledig a chydnabyddedig ledled Cymru. Mae hyn yn debygol o gefnogi ymgysylltiad gan randdeiliaid sydd eisoes yn gyfarwydd â'r dull a'i ffocws ar hyrwyddo lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar.

Fodd bynnag, er bod y term *"Cam 2"* yn arwydd o ddilyniant, efallai nad yw'n cyfleu yn llawn beth yw arwyddocâd ymestyn y rhaglen i addysg statudol a chyd-destunau neilltuol plant rhwng 5 ac 11 oed. Mae perygl y gallai'r rhaglen barhau i gael ei hamgyffred yn bennaf fel menter y blynyddoedd cynnar, gan gyfyngu o bosibl ar ei heffaith o fewn ysgolion.

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi'r bwriad i adeiladu ar raglen sefydledig ond yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr enwi'n dangos yn glir y ffocws ehangach ar blant oedran ysgol a rôl lleoliadau addysg wrth gyflawni deilliannau gwell o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymir i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 1) yn helpu hwyluso deilliannau gwell o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer babanod a phlant?**

**Cytuno**

**Sylwadau ychwanegol:**

Mae Estyn yn cytuno bod codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn elfen hanfodol wrth wella deilliannau ar gyfer babanod a phlant. Mae cynyddu dealltwriaeth ymhlith teuluoedd, ymarferwyr a phlant eu hunain yn cynnig y potensial i gefnogi adnabyddiaeth gynharach o anghenion, cymorth mwy cyson, ac alinio cryfach rhwng y cartref a lleoliadau addysgol.

Mae Estyn yn cytuno, lle mae gan ymarferwyr ac arweinwyr ddealltwriaeth glir o rôl llafaredd a chyfathrebu mewn dysgu, eu bod yn gallu cynllunio amgylcheddau a phrofiadau yn well sy'n hyrwyddo datblygiad iaith ar draws y cwricwlwm. Yn yr un modd, mae ennyn diddordeb teuluoedd mewn deall datblygiad iaith nodweddiadol a sut i'w gefnogi yn gallu cryfhau parhad rhwng y cartref a'r lleoliad, sy'n hynod bwysig yn y camau datblygu cynnar.

Mae'r camau gweithredu arfaethedig, yn cynnwys ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd cenedlaethol, adnoddau ar gyfer ymarferwyr ac alinio â Chwricwlwm i Gymru, yn fecanweithiau priodol i gefnogi'r nod hwn. Mae cynnwys negeseuon o amgylch effaith sgriniau a thechnoleg hefyd yn amserol ac yn adlewyrchu pryderon sy'n dod i'r amlwg am eu dylanwad ar gyfathrebu a lles plant.

**Cwestiwn 3: A ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymir i wella nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 2) yn helpu hwyluso deilliannau gwell o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer babanod a phlant?**

**Cytuno**

**Sylwadau ychwanegol:**

Mae Estyn yn cytuno bod cryfhau nodi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hanfodol i wella deilliannau ar gyfer babanod a phlant. Mae nodi'n gynharach ac yn fwy

cyson yn cynyddu'r tebygolrwydd fod cymorth priodol yn cael ei ddarparu ar yr adeg gywir, gan helpu atal anghenion rhag dwysáu a lleihau effeithiau tymor hwy ar ddysgu a lles.

Mae'r ffocws arfaethedig ar adolygu trefniadau asesu presennol ac archwilio offer nodi yn seiliedig ar dystiolaeth yn briodol. Lle mae amrywioldeb o ran sut mae ymarferwyr yn nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg, gall hyn arwain at gymorth anghyson ac oedi mewn ymyrraeth. Mae gan ddull mwy safonedig, wedi'i lywio gan dystiolaeth, y potensial i wella tegwch a sicrhau bod anghenion plant yn cael eu cydnabod ar draws gwahanol leoliadau a chyd-destunau ac mewn cam cynharach.

Mae'r bwriad i alinio prosesau nodi ar draws sectorau, yn cynnwys addysg a'r blynyddoedd cynnar, yn hynod bwysig. Mae nodi effeithiol yn dibynnu nid yn unig ar offer, ond hefyd ar wybodaeth, hyder a barn broffesiynol ymarferwyr. Lle mae ymarferwyr yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda, maent yn fwy tebygol o sylwi ar arwyddion cynnil o angen ac ymateb yn briodol.

Fodd bynnag, i sicrhau bod y dull arfaethedig yn effeithiol, bydd yn bwysig fod prosesau nodi yn gymesur ac nad ydynt yn creu baich gweinyddol diangen ar gyfer ymarferwyr. Mae angen i offer a dulliau fod yn addas i'w defnyddio yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cynnwys mewn cyd-destunau dwyieithog. Lle nodir bod angen cymorth ar blant, dylai hyn arwain yn uniongyrchol at gamau gweithredu amserol a phriodol. Yn ychwanegol, bydd angen i ymarferwyr ar draws pob sector gael hyfforddiant digonol i ddefnyddio offer yn gyson a dehongli deilliannau'n gywir.

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi'r cyfeiriad arfaethedig. Mae gwella nodi yn ffactor allweddol ar gyfer gwella deilliannau, ond bydd llwyddiant hyn yn dibynnu ar weithredu cryf, galluogrwydd gweithlu a chysylltiadau clir ag ymyrraeth effeithiol.

**Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymir i wella cymorth ar gyfer y rhai ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 3) yn helpu hwyluso deilliannau gwell o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer babanod a phlant?**

**Cytuno**

**Sylwadau ychwanegol:**

Mae Estyn yn cytuno bod cryfhau mynediad at gymorth cyffredinol a thargedig effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn ffactor allweddol o ran gwella deilliannau. Mae'r pwyslais ar sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu lle mae ei angen, yn hytrach na dibynnu'n gyfan gwbl ar wasanaethau arbenigol, yn cyd-fynd â dull ataliol a chynhwysol.

Lle mae ysgolion a lleoliadau yn cynnig darpariaeth gyffredinol gref, fel amgylcheddau sy'n gyfoethog o ran iaith, modelu cyfathrebu yn effeithiol, a chyfleoedd strwythuredig ar gyfer llafaredd, mae llawer o ddisgyblion yn elwa heb fod angen ymyrraeth arbenigol arnynt. Yn ychwanegol, mae ymyriadau targedig, pan maent yn cael eu gweithredu'n gyson a'u monitro'n effeithiol, yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd dysgwyr.

Mae'r cynnig i adolygu a chryfhau argaeledd ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant rhwng 5 ac 11 oed yn bwysig. Yn hanesyddol, bu mwy o bwyslais ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar, ac mae ymestyn y ffocws hwn i addysg statudol yn cynnig y potensial i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cymorth ar gyfer yr ystod oedran hon o ddisgyblion.

Byddai Estyn yn awgrymu bod eglurder ynghylch beth mae darpariaeth gyffredinol a thargedig effeithiol yn ei olygu mewn ysgolion a lleoliadau a bod cymorth yn hygyrch yn Gymraeg a Saesneg, fel ei gilydd, yn cynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Dylai fod mecanweithiau clir hefyd i fonitro effaith ymyriadau ar gynnydd disgyblion, gydag athrawon a staff yn cael eu cefnogi trwy ddysgu proffesiynol i roi ymyriadau ar waith yn addas.

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi'r dull arfaethedig. Mae cryfhau cymorth ar lefelau cyffredinol a thargedig yn debygol o wella deilliannau ar gyfer llawer o ddisgyblion ar yr amod fod gweithredu'n cael ei gefnogi gan ddysgu proffesiynol cryf a gwerthuso effaith yn drylwyr.

**Cwestiwn 5: A ydych chi'n cytuno y bydd y camau gweithredu arfaethedig i wella medrau'r gweithlu i fynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (amcan 4) yn arwain at nodi a chymorth gwell ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu?**

**Cytuno**

**Sylwadau ychwanegol:**

Mae gwella medrau'r gweithlu ar draws addysg, gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol yn alluogwr hanfodol ar gyfer gwella nodi a chymorth ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae'r camau gweithredu arfaethedig, yn cynnwys cryfhau hyfforddiant cyn cofrestru, datblygu dysgu proffesiynol sy'n benodol i sector, a darparu adnoddau hygyrch ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant rhwng 5 ac 11 oed, yn briodol ac yn cyd-fynd yn dda â'r uchelgais i ymgorffori dull system gyfan. Yn benodol, mae ymestyn hyfforddiant y tu hwnt i'r blynyddoedd cynnar i addysg statudol yn ddatblygiad pwysig ac angenrheidiol.

Byddai Estyn yn annog ystyried sut mae dysgu proffesiynol mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach, yn cynnwys llythrennedd, diwygio ADY a lles, i osgoi darnio a sicrhau cydlyniant ar draws mentrau.

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi'r camau gweithredu arfaethedig. Mae cryfhau galluogrwydd gweithlu yn debygol o gael effaith uniongyrchol a chadarnhaol ar nodi'n gynnar ac ansawdd y cymorth a ddarperir i blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno y bydd y dull a awgrymir i ymgorffori cymorth ataliol o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu ledled Cymru (amcan 5) yn helpu hwyluso deilliannau gwell o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer babanod a phlant?**

**Cytuno**

**Sylwadau ychwanegol:**

Mae Estyn yn cytuno bod ymgorffori dull ataliol, system gyfan ar gyfer cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn debygol o wella deilliannau ar gyfer babanod a phlant. Mae'r pwyslais ar gydweithio ar draws sectorau, yn enwedig ar draws gwasanaethau addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig, yn adlewyrchu natur gymhleth a chydgysylltiedig datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Hoffai Estyn bwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau ac ymarferwyr yn gweithio'n gydlynol, gyda dealltwriaeth ar y cyd o anghenion plant, lle mae'r cymorth llwyddiannus hwn yn fwy amserol, cyson ac effeithiol. Mae cryfhau cysylltiadau â meysydd fel iechyd meddwl, llythrennedd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn hynod bwysig, gan fod lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi eu cysylltu'n agos â lles dysgwyr, mynediad at y cwricwlwm a deilliannau tymor hwy.

Mae Estyn yn cytuno bod y ffocws ar ddarpariaeth gyffredinol a thargedig, ochr yn ochr â model ataliol, yn briodol. Fodd bynnag, bydd gweithredu llwyddiannus yn dibynnu ar eglurder rolau a chyfrifoldebau ar draws sectorau, cyfathrebu effeithiol rhwng gwasanaethau, a sicrhau bod ymarferwyr wedi eu harfogi'n ddigonol i ddarparu'r cymorth hwn yn ymarferol.

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi'r dull arfaethedig, gan gydnabod bod gan system gydlynus ac ataliol y potensial i leihau anghydraddoldebau a gwella deilliannau ar gyfer pob dysgwr.

**Cwestiwn 7: Ar wahân i'r 5 amcan a awgrymir yn y ddogfen ymgynghori ar hyn o bryd, a oes unrhyw rai eraill y dylem eu cynnwys? Rhowch awgrymiadau yn y blwch sylwadau isod.**

**Oes**

**Sylwadau ychwanegol:**

Mae Estyn yn ystyried bod chweched amcan sy'n canolbwyntio'n eglur ar werthuso, effaith ac atebolrwydd yn hanfodol i lwyddiant y cynllun cyflawni.

Er bod yr amcanion presennol yn canolbwyntio'n briodol ar ymwybyddiaeth, nodi, cymorth, datblygu'r gweithlu ac alinio system, mae pwyslais annigonol ar sut bydd effaith yn cael ei mesur, ei monitro a'i defnyddio i yrru gwelliant dros gyfnod.

Dylai hyn gynnwys:

- mesurau llwyddiant cenedlaethol a lleol wedi eu diffinio'n glir
- disgwyliadau i ysgolion a gwasanaethau werthuso effaith ar ddeilliannau dysgwyr
- mecanweithiau ar gyfer casglu a dadansoddi data yn barhaus
- trefniadau ar gyfer rhannu arfer effeithiol ac ehangu'r gwaith hwnnw

Heb fframwaith gwerthuso cryf, mae perygl na fydd y cynllun yn cynhyrchu tystiolaeth gadarn o effaith nac yn cefnogi gwelliant parhaus ar draws y system.

**Cwestiwn 8: Ar wahân i'r camau gweithredu arfaethedig sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori, a oes unrhyw rai eraill y dylem eu cynnwys? Rhowch awgrymiadau yn y blwch sylwadau isod.**

**Oes**

**Sylwadau ychwanegol:**

Mae Estyn yn ystyried bod nifer fach o gamau gweithredu ychwanegol a allai gryfhau'r dull arfaethedig a chefnogi gweithredu mwy cyson ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cryfhau arweiniad ar gyfer ysgolion a lleoliadau ar sut beth yw darpariaeth gyffredinol effeithiol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ymarferol, yn cynnwys enghreifftiau o amgylcheddau sy'n gyfoethog o ran iaith a rhyngweithio o ansawdd da. Dylid ystyried datblygu cysylltiadau cliriach â fframweithiau asesu a dilyniant hefyd, i gynorthwyo ymarferwyr i ddeall sut mae datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cyd-fynd â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru. Hefyd, mae angen ystyried sut gellid rhannu arfer orau i gefnogi gwelliant ar draws y sectorau.

**Cwestiwn 9: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol yr amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori, i hyrwyddo a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a**

**chyfathrebu ymhellach ledled Cymru, ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- **Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**
- **Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

**Sylwadau ategol:**

Mae gan y cynllun arfaethedig botensial sylweddol i gefnogi'r Gymraeg, yn enwedig trwy nodi'n gynnar a chymorth effeithiol sy'n galluogi plant i ddatblygu medrau cyfathrebu cryf yn Gymraeg.

Fodd bynnag, nid yw'r effaith gadarnhaol hon wedi'i gwarantu, a bydd yn dibynnu ar y graddau y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei hymgorffori'n llawn ac y darperir adnoddau ar ei chyfer yn llawn o'r cychwyn.

Mae risgiau clir os nad eir i'r afael â hyn, yn cynnwys:

- argaeledd cyfyngedig o ran offer ac ymyriadau asesu cyfrwng Cymraeg o ansawdd da
- amrywioldeb yn hyder ymarferwyr yn cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg
- annhegwch posibl o ran cael mynediad at gymorth amserol a phriodol

I liniaru'r risgiau hyn, mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- wneud cydraddoldeb rhwng darpariaeth Gymraeg a Saesneg yn ofyniad eglur
- sicrhau bod yr holl offer, hyfforddiant ac ymyriadau ar gael ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg
- ymgorffori datblygiad ac asesiad iaith dwyieithog o fewn holl weithgarwch datblygu'r gweithlu
- gweithio'n agos gyda darparwyr cyfrwng Cymraeg i gyd-lunio dulliau perthnasol yn gyd-destunol

Byddai ffocws cryfach a mwy eglur ar y Gymraeg trwy gydol yr amcanion yn helpu sicrhau tegwch, cysondeb ac aliniad â blaenoriaethau iaith cenedlaethol.

**Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, a allai'r amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori, i hyrwyddo a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru, gael eu ffurfio neu'u newid er mwyn gwneud y canlynol:**

- **cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn awgrymu y gellid cryfhau'r amcanion arfaethedig trwy wneud disgwyliadau o amgylch y Gymraeg yn fwy eglur trwy gydol y ddogfen, yn hytrach nag ymhlyg. Byddai hyn yn helpu sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael ei hymgorffori'n llawn o'r cychwyn, yn hytrach na'i hystyried yn elfen ychwanegol.

Efallai byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno cyfeirio'n eglur at yr angen am gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn yr holl offer, ymyriadau ac adnoddau. Dylai hyn hefyd gynnwys disgwyliadau cliriach ynghylch cefnogi datblygiad ac asesiad iaith dwyieithog, yn enwedig ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Mae angen rhoi ystyriaeth i sicrhau bod datblygu'r gweithlu yn cynnwys ffocws penodol ar leferydd, iaith a chyfathrebu mewn cyd-destunau Cymraeg a dwyieithog. Mae gwneud yn siŵr fod cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gwbl hygyrch ac yn effeithiol yn Gymraeg yn hanfodol i hyrwyddo tegwch a chynorthwyo dysgwyr â'u hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

**Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, a allai'r amcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori gael eu ffurfio neu'u newid er mwyn hyrwyddo effeithiau cadarnhaol, neu leihau unrhyw effeithiau negyddol, ar hawliau plant? Rhowch awgrymiadau yn y blwch sylwadau isod:**

Mae Estyn yn cytuno bod yr amcanion arfaethedig yn cyd-fynd yn dda â hawliau plant, yn enwedig o ran cefnogi gallu plant i fynegi eu hunain, cael mynediad at addysg a chymryd rhan yn llawn mewn dysgu a chyd-destunau cymdeithasol. Gellid cryfhau'r rhain ymhellach trwy wneud hawliau plant yn fwy eglur ar draws pob un o'r amcanion.

Efallai byddai Llywodraeth Cymru eisiau ystyried gwneud cyfeiriad cliriach at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn o fewn pob amcan, yn enwedig yr hawl i gael eich clywed a manteisio ar gymorth priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau yr eir ati i ofyn am safbwyntiau plant a'u bod yn cael eu hadlewyrchu wrth gynllunio a gwerthuso cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae angen ystyried cryfhau disgwyliadau o amgylch mynediad teg at gymorth, hefyd, yn enwedig ar gyfer grwpiau dan anfantais a grwpiau bregus. Dylai'r canllawiau hefyd bwysleisio pwysigrwydd nodi ac ymyrraeth amserol, i atal hawliau plant rhag cael eu peryglu trwy gymorth gohiriedig.

Byddai'r mireiniadau hyn yn helpu sicrhau bod hawliau plant nid yn unig yn cael eu cydnabod ond yn cael eu hymgorffori'n weithredol wrth gynllunio a chyflwyno'r rhaglen.

| |
|---|
| **Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:** |
| Mae Estyn yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol y cynllun cyflawni arfaethedig a'i bwyslais ar ddull ataliol, system gyfan ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Yn ogystal â'r pwyntiau a godwyd uchod, mae nifer fach o ystyriaethau ehangach a allai gryfhau gweithredu ac effaith. |

Byddai gwerth mewn sicrhau eglurder parhaus ynghylch sut mae'r rhaglen hon yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi presennol, yn enwedig Cwricwlwm i Gymru, diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a strategaethau lles ehangach. Bydd alinio clir yn helpu osgoi dyblygu ac yn cefnogi gweithredu cydlynus ar draws lleoliadau.

Gellir ystyried hefyd sut bydd disgwyliadau ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn cael eu cyfleu, yn cynnwys beth mae arfer effeithiol yn ei olygu wrth gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu ar draws gwahanol grwpiau oedran.

Bydd yn bwysig sicrhau bod capasiti digonol yn bodoli ar draws y system i gyflawni'r uchelgeisiau arfaethedig, yn enwedig mewn cysylltiad â datblygu'r gweithlu, mynediad at adnoddau priodol, ac argaeledd cymorth yn Gymraeg a Saesneg.

**Bod yn anhysbys**

**Gallai ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyhoeddi. Bydd eich ymateb yn ddienw. Fodd bynnag, os hoffech i'ch enw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch x yn y blwch.**

[x] **Rwy'n cytuno i'm henw gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'm hymateb i'r ymgynghoriad hwn.**